| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **22 Mehefin 2021** |
| **TEITL:** | **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:**<br>**Polisi Cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Williams**<br>Ymgynghorydd Iaith |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno papurau'r Ymgynghoriad er gwybodaeth ac er mwyn gwahodd sylwadau gan yr aelodau fydd yn cyfrannu at ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.<br>Dogfennau'r ymgynghoriad i weld drwy'r linc isod: https://llyw.cymru/polisi-cenedlaethol-seilwaith-ieithyddol-y-gymraeg |

## 1. Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddogfen bolisi sydd yn manylu ar sut y maent yn bwriadu gweithred i gyflawni'r amcanion a osodwyd dan Thema 3 yn ei strategaeth iaith Cymraeg 2050.

1.2 Mae Thema 3 y strategaeth iaith – *Creu Amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun* - yn delio gydag amrywiaeth o faterion sydd yn cyfrannu at osod y sylfeini cywir ar gyfer ffyniant ieithyddol. Mae ei nodau yn cynnwys:

- **Cymuned a'r economi:** cefnogi seilwaith economaidd cymdeithasol cymunedau Cymraeg.
- **Diwylliant a'r cyfryngau:** sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.
- **Cymru a'r byd ehangach:** sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.
- **Technoleg ddigidol:** sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol
- **Seilwaith ieithyddol:** sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r strategaeth hon.
- **Cynllunio ieithyddol:** sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

- **Gwerthuso ac ymchwil:** parhau i adeiladu ar ein tystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ein hymyriadau a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.

1.3 Mae'r ddogfen bolisi hon yn edrych yn benodol ar yr hyn sydd yn cael ei ddiffinio fel *seilwaith ieithyddol* yn y Nodau uchod, sef Geiriaduron, Terminoleg, Corpora a Safoni. Mae'n gosod allan yr heriau cyfredol yn y maes hwn ac yn cynnig nifer o amcanion a chamau gweithredu.

1.4 Mae'n cynnig camau o dan chwe maes, sef:

1. **Geiriaduron**
2. **Terminoleg**
3. **Corpora**
4. **Safoni (e.e. orgraff/sillafu, enwau lleoedd, termau)**
5. **Creu un rhyngwyneb – sicrhau chwilio hawdd ar draws pob adnodd**
6. **Creu uned newydd i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg**

1.5 Nod y Llywodraeth yw "**gwneud i'r holl elfennau rydyn ni wedi eu grwpio o dan y teitl 'seilwaith ieithyddol' weithio'n llyfn gyda'i gilydd, er mwyn ei gwneud yn haws i fwy o bobl nag erioed ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.**"

## 2. Cwestiynau y gofynnwn i chi eu hystyried

Mae'r rhestr lawn o gwestiynau y mae'r Llywodraeth yn gofyn i ni eu hateb fel rhan o'r ymgynghoriad i'w gweld ar y wefan drwy ddilyn y linc ar ben yr adroddiad hwn. Ond yn fras, gofynnir i ni ystyried y canlynol:

1. Ydym ni'n cytuno yn gyffredinol gyda'r camau sydd yn cael eu cynnig gan y Llywodraeth?
2. Oes yna unrhyw beth ar goll neu unrhyw beth arall y gallen nhw fod yn ei gynnwys yn y polisi?
3. A ddylen nhw ddilyn trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r meysydd?
4. Beth yw ein barn am yr effeithiau posib y byddai'r cynigion yn y polisi drafft yma ar gyfer seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol felly ar:
    i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
    ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
5. Beth fyddai'r effeithiau hynny, a pha awgrymiadau fydden ni'n eu rhoi i'r Llywodraeth ar gyfer cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

## 3. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

Gofynnir i'r aelodau ddarllen dogfennau'r ymgynghoriad a chynnig unrhyw farn a sylwadau fyddai yn helpu'r ymgynghorwyr iaith lunio ymateb ar ran y Cyngor i'r ymgynghoriad.